# CHWECHED ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETH Y DU AR GYFLWYNO A GWEITHREDU RHAN 2 (CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014

# Y Chweched Adroddiad Blynyddol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i Senedd Cymru yn unol ag Adran 23(1)(c) o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2020

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol, Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol correspondence@ukgovwales.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2338-4

CCS1220701388 12/20

Fe'i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

**CYNNWYS**


**Tudalen**

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | **4** |
| **Y Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru** | **9** |
| **Pwerau Benthyca** | **10** |
| **Pŵer i Greu Trethi Newydd** | **11** |
| **Effaith Pwerau Newydd ar Grant Bloc Cymru** | **13** |
| **Gweithgareddau Eraill i Roi Hyn Ar Waith** | **14** |
| **Gofynion Adrodd Eraill** | **15** |
| **Casgliad** | **16** |
| **Atodiad A: Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014** | **17** |

## RHAGAIR




Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed i ddatganoli'r pwerau benthyca a threthu o dan ran 2 Deddf Cymru 2014 sy'n delio â datganoli pwerau ariannol.

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y llynedd, cafodd y diwethaf o ddarpariaethau ariannol y Ddeddf eu rhoi ar waith, ar ôl cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Mae hyn yn dilyn y cynnydd sylweddol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf o ran gweithredu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gynyddu terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru o £500m i £1bn, fel y nodir yn Neddf Cymru 2017.

Mae Deddf Cymru 2014 yn rhoi pwerau newydd arwyddocaol i Senedd a Llywodraeth Cymru, sy'n sicrhau gwir atebolrwydd yn y drefn llywodraethu datganoledig yng Nghymru. Dros y chwe blynedd diwethaf, rydym wedi gweld yn glir y cydweithio cadarnhaol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru tuag at drosglwyddo'r pwerau ariannol newydd hyn i Gymru.

Mae'r pwerau ariannol newydd yn rhan allweddol o'r setliad datganoli yng Nghymru, yn gwella atebolrwydd setliad datganoli Cymru ac yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gefnogi twf economaidd yng Nghymru.



**Y GWIR ANRHYDEDDUS SIMON HART, AELOD SENEDDOL**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

**PENNOD 1**

**CYFLWYNIAD**

**Cwmpas a Chynnwys yr Adroddiad hwn**

1. Hwn yw'r chweched adroddiad ar gyflwyno Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.

2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - creu cyfraddau treth incwm newydd i Gymru;
    - datgymhwyso'r Dreth Dir a Threth Stamp y Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
    - datgymhwyso Treth Dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
    - darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca; a
    - grym i greu trethi datganoledig newydd.

3. Mae'r darpariaethau ariannol wedi cael eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd. Cafodd Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi eu datganoli yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y Papur Gorchymyn[1] a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi Bil Cymru ym mis Mawrth 2014. Fe wnaeth cytuno ar y Fframwaith Ariannol i Gymru ei gwneud yn bosibl cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru o fis Ebrill 2019 ymlaen.

4. Er mwyn i Senedd y DU a Senedd Cymru gael yr holl wybodaeth drwy gydol y broses hon, mae Adran 23 Deddf Cymru 2014 yn mynnu bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ynglŷn â rhoi'r rhan hon o'r Ddeddf ar waith. Er mwyn i Senedd y DU a Senedd Cymru wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth:

    - mae'n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd y DU, a rhoi copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru;
    - mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, cyflwyno adroddiad eu hunain i Senedd Cymru, a rhoi copi i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac
    - mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ Senedd y DU.

    Bydd y ddwy Lywodraeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau nes bydd blwyddyn wedi mynd heibio i'r diwrnod y daeth darpariaethau olaf Rhan 2 i rym.

---

[1] Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294470/Wales_Bill_Command_Paper_-_English.pdf

5. Yn ôl Adran 23(7) Deddf Cymru 2014, mae'n rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys y canlynol:

*(a) datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

*(b) datganiad am y camau y dylid eu cymryd gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

*(c) asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u cychwyn,*

*(d) asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i Senedd Cymru neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon,*

*(e) effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac*

(f) *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw Senedd y DU neu Senedd Cymru atynt.*

6. Yn Atodiad A rhoddir rhestr fanwl o'r paragraffau yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi sylw i bob un o'r gofynion hyn. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau yn gyfyngedig i'r gofynion hyn, ac fe gânt hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r naill Lywodraeth neu'r llall yn credu eu bod yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i Senedd y DU a Senedd Cymru.

**PENNOD 2**

**CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU**

7. Sefydlwyd drwy Ddeddf Cymru 2014 – yn amodol ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) – y byddai prif gyfraddau treth incwm y DU sy'n berthnasol i incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau yn cael eu gostwng 10c i drethdalwyr Cymreig, ac y byddai Senedd Cymru'n gallu gosod cyfraddau treth incwm newydd i Gymru bob blwyddyn, a fyddai'n cael eu hychwanegu at gyfraddau gostyngol y DU. Mae gweddill y strwythur treth yn dal yn fater heb ei ddatganoli, ac yn parhau i gael ei bennu gan Senedd y DU.

8. Mae Deddf Cymru 2017 – a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017 – wedi cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm, gan baratoi'r ffordd i gyflwyno CTIC ym mis Ebrill 2019.

9. Llwyddodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), gyda mewnbwn a chydweithrediad llawn Llywodraeth Cymru, i gyflwyno CTIC i drethdalwyr yng Nghymru ar 6 Ebrill 2019. Mae HMRC yn eu gweinyddu fel rhan o system treth incwm y DU.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

10. Daeth CTIC i rym ar 6 Ebrill 2019. Bellach mae cwsmeriaid treth incwm sy'n byw yng Nghymru yn talu cyfraddau Cymru, sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn y Penderfyniad ar Gyfraddau Cymru[2].

11. Mae HMRC wedi parhau i wneud rhagor o newidiadau i rannau o'r system Hunanasesu ac i ddelio â chynlluniau pensiwn 'rhyddhad yn y ffynhonnell' (RAS). Cafodd y ddau beth hyn eu cyflawni yn y flwyddyn dreth 2019-20. Mae'r manylion i'w gweld yn yr adrannau perthnasol isod.

*Rheoli'r prosiect*

12. Cyflwynodd HMRC drefniadau rheoli i sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol ar gyfer y broses o roi CTIC ar waith. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar bob lefel lywodraethu, oedd yn sicrhau ei bod yn gweld y broses weithredu a'r costau yn llawn a'i bod yn rhan o benderfyniadau perthnasol. Roedd y trefniadau rheoli hyn yn cynnwys:

[2] Mae'r Penderfyniadau ar Gyfraddau Cymru yn cael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru cyn dechrau'r flwyddyn (15 Ionawr 2019 ar gyfer blwyddyn dreth 2019-20 a 3 Mawrth 2020 ar gyfer blwyddyn dreth 2020-21) gosododd y ddau gyfradd treth incwm Cymru ar yr un lefel â gweddill y DU (ac eithrio'r Alban).

- Penodi Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn HMRC sy'n gyfrifol am weithredu a chasglu CTIC yn barhaus[3];

- Bwrdd Rhaglen o uwch swyddogion i roi trosolwg o waith datganoli treth HMRC yng Nghymru;

- Bwrdd Prosiect i reoli'r gwaith o weithredu CTIC; ac

- Is-grwpiau cyfathrebu a risg penodol i reoli'r elfennau hynny o'r prosiect.

13. Ar ôl llwyddo i roi CTIC ar waith, mi wnaeth HMRC a Llywodraeth Cymru sefydlu proses lywodraethu newydd ar gyfer CTIC. Mae'r sianel lywodraethu newydd yn goruchwylio'r gwaith o weinyddu CTIC, sy'n cynnwys prosesau ffurfiol i gymeradwyo ad-daliadau gan HMRC i Lywodraeth Cymru, ac mae'n goruchwylio gweithgareddau cydymffurfio allweddol fel gwaith sicrhau cyfeiriadau.

*Cyfathrebu*

14. Prif neges HMRC i gwsmeriaid sydd ar CTIC yw pwysigrwydd diweddaru eu cyfeiriad gyda HMRC. Mae llythyrau yn atgoffa pobl i wneud hyn yn cael eu darparu drwy ohebiaeth reolaidd HMRC â threthdalwyr, er enghraifft drwy negeseuon yn atgoffa pobl am ein gwasanaethau digidol.

15. Gofynnir i gwsmeriaid ddatgan eu statws preswylio ar eu ffurflen SA, er bod y cyfrifiad treth yn defnyddio'r statws preswylio sydd gan HMRC. Os yw'r datganiad ar y ffurflen dreth yn wahanol i'r statws preswylio sydd gan HMRC, byddwn yn rhoi gwybod i'r trethdalwr er mwyn iddo allu diweddaru ei gyfeiriad os bydd angen.

16. Mae HMRC yn monitro faint o gyswllt a geir gyda chwsmeriaid mewn perthynas â CTIC, ac mae'r ffigurau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn yr Adroddiad Gwybodaeth Busnes chwarterol. Mae lefelau'r cyswllt â chwsmeriaid yn isel, ac mae HMRC yn hyderus bod gan gwsmeriaid yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae yna ganllawiau ar gov.uk yn benodol am CTIC, gan gynnwys i gwsmeriaid sydd â sefyllfaoedd preswylio mwy cymhleth. Mae HMRC hefyd yn cyfathrebu â chyflogwyr gan dynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r codau a roddwyd gan HMRC yn gywir.

*Adnabod Trethdalwyr*

17. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, ym mis Tachwedd 2018 anfonodd HMRC lythyrau at dros 2 filiwn o gwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys pobl sy'n ennill llai o arian na'r trothwy talu treth incwm. Ni

[3] Mae'r holl fanylion am gyfrifoldebau Swyddogion wedi'u nodi ym Mhennod 3 y ddogfen 'Managing Public Money' gan Drysorlys EM: https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

fyddwn yn gwybod y ffigurau o ran cyfanswm y trethdalwyr yng Nghymru yn ystod y flwyddyn dreth 2019-20 tan 2021, ar ôl y dyddiad cau ar gyfer llenwi ffurflenni Hunanasesu a chysoni diwedd blwyddyn.

18. Cyn dechrau'r flwyddyn dreth 2019-20, cyhoeddodd HMRC godau treth newydd i Gymru[4] ar gyfer y rheini sydd mewn gwaith cyflogedig ac yn Talu wrth Ennill. Er bod HMRC yn rhoi codau treth i unigolion, cyfrifoldeb cyflogwyr yw gweithredu'r codau treth sydd wedi cael eu cyhoeddi iddynt. Mewn rhai achosion, ni chafodd y codau treth hyn eu gweithredu'n gywir. Fe wnaeth HMRC weithio gyda'r cyflogwyr y mae'r mater hwn wedi effeithio arnynt fwyaf er mwyn gwneud yn siŵr bod y codau treth cywir yn cael eu defnyddio. Mae HMRC yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â chyflogwyr i wneud yn siŵr bod y codau treth cywir yn cael eu defnyddio ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru.

19. Ni fydd poblogaeth trethdalwyr Cymru yn sefydlog: mae pobl yn symud i ac o Gymru ac mae pobl yn dod yn drethdalwyr neu'n peidio â bod yn drethdalwyr am amryw o resymau. Mae HMRC yn cymryd nifer o gamau i sicrhau cywirdeb parhaus poblogaeth trethdalwyr Cymru, gan gynnwys:

- sganio data cyfeiriadau HMRC i gywiro codau post sydd ar goll neu wedi'u darparu'n rhannol;
- mynd ati'n rheolaidd i ddiweddaru'r wybodaeth am godau post sy'n cael ei dal gan HMRC, gan gynnwys ychwanegu codau post newydd Cymru at ei restr o godau post Cymru;
- parhau i ategu cofnodion cwsmeriaid HMRC drwy amrywiaeth o ffynonellau data trydydd parti;
- cyhoeddi cyfathrebiadau i atgoffa trethdalwyr i roi gwybod i HMRC os byddant yn newid cyfeiriad.

*Hunanasesiad*

20. Mae Hunanasesiad yn system a ddefnyddir gan HMRC i gasglu treth incwm ar incwm nad yw'n cael ei gynnwys yn system Talu wrth Ennill. Mae gan gwsmer dair ffordd o adrodd enillion ar gyfer Hunanasesiad:

- cyflwyno bob chwarter drwy gydol y flwyddyn dreth;
- ar-lein, lle mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni erbyn hanner nos ar 31 Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth (31 Ionawr 2021 ar gyfer y flwyddyn dreth 2019-20);

[4] Mae codau treth Cymru'n dechrau â'r llythyren "C"

- ar bapur, lle mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni erbyn hanner nos ar 31 Hydref ar ôl diwedd y flwyddyn dreth (31 Hydref 2020 ar gyfer y flwyddyn dreth 2019-20).

21. Roedd HMRC wedi gwneud yr holl newidiadau i ganiatáu cyflwyno bob chwarter cyn i CTIC ddod i rym ar 6 Ebrill 2019. Mae rhagor o newidiadau yn cael eu gwneud i'r systemau ar-lein ac ar bapur i wneud yn siŵr bod statws trethdalwyr yng Nghymru yn cael ei gydnabod. O ran y system ar-lein, mae hyn yn golygu bod cwsmeriaid yn gallu cadarnhau eu statws fel trethdalwr yng Nghymru; bod unrhyw newid i gyfeiriad y cwsmer yn cael ei adlewyrchu yn y cyfrifianellau treth ar-lein; ond bod dal rhaid i HMRC ddilysu pob newid mewn statws ac i gyfeiriadau cyn unrhyw newid swyddogol yn y statws treth.

*Cynlluniau pensiwn rhyddhad yn y ffynhonnell*

22. O fis Ebrill 2018 ymlaen, mae darparwyr pensiwn wedi gorfod defnyddio cyfradd sylfaenol rhyddhad treth ar gyfer Cymru, yr Alban neu weddill y DU, fel y bo'n briodol, ar gyfer cyfraniadau pensiwn rhyddhad yn y ffynhonnell (RAS). Cyfrifoldeb HMRC yw rhoi gwybod i'r darparwyr pensiynau am y gyfradd gywir i'w defnyddio. I wneud hyn, rhaid i HMRC roi gwybod i'r cynlluniau am brif fan preswylio pob aelod unigol mewn cynllun. Mae'r datblygiad hwn wedi cael ei gyflwyno fesul cam ac i ddechrau roedd y prosesau a'r swyddogaethau wedi cael eu datblygu gyda Llywodraeth yr Alban, cyn cyflwyno CTIC. O fis Ionawr 2019 ymlaen, cytunwyd y byddai gwaith datblygu pellach ar gyfer RAS yn cael ei rannu rhwng Cymru a'r Alban.

*Costau*

23. Yn ôl amcangyfrifon HMRC, bydd y broses o roi CTIC ar waith yn costio rhwng £8m a £9m i gyd.

24. Hyd at yr 8fed o Ragfyr 2020, mae HMRC wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £7.79m i roi CTIC ar waith.

25. Amcangyfrifir bod y costau gweithredu oddeutu £700,000 ar gyfer 2020-21.

*Camau i'w cymryd i roi hyn ar waith*

26. Yr unig elfen sydd ar ôl yw'r newidiadau i'r Crynodeb Treth Blynyddol i drethdalwyr yng Nghymru. Ein nod yw cyflwyno'r rhain ym mis Rhagfyr 2020.

27. Unwaith y bydd hyn wedi digwydd, bydd HMRC yn gallu cwblhau'r ATS a chostau cwblhau'r prosiect a bydd gennym ddarlun cliriach o gostau terfynol gweithredu CTIC.

## PENNOD 3

## Y DRETH TRAFODIADAU TIR A’R DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI YNG NGHYMRU

28. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru.

29. Yn ystod haf 2017, cafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) eu pasio gan Senedd Cymru. Roedd y rhain yn paratoi’r ffordd ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Ers yr adeg honno, nid yw trethi'r Deyrnas Unedig wedi bod yn berthnasol yng Nghymru, a chafodd grant bloc Cymru ei addasu i adlewyrchu hynny.

30. Sefydlwyd prosiect ar y cyd gan HMRC a Llywodraeth Cymru yn 2016 i reoli’r broses o ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, a newid i ddefnyddio’r Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Roedd Bwrdd y Prosiect ar y Cyd yn cynnwys cynrychiolwyr o HMRC a Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth Bwrdd y Prosiect oruchwylio newidiadau TG, cynllun cyfathrebu ar y cyd, y gwaith o roi mesurau parodrwydd busnesau cadarn ar waith, a derbyn cytundeb rhannu data ar y cyd rhwng HMRC ac Awdurdod Cyllid Cymru. Daeth Bwrdd y Prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2019 ar ôl gorffen y gwaith.

31. Mae gan Awdurdod Cyllid Cymru gyfrifoldeb llawn dros reoli’r trethi datganoledig hyn. Mae HMRC yn parhau i gydweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru, gan rannu gwybodaeth a datblygu dulliau cydymffurfio ar y cyd.

32. Nawr fod Treth Dir y Dreth Stamp a’r Dreth Dirlenwi wedi cael eu datganoli i Gymru, mae dull cydymffurfio ar y cyd yn hanfodol mewn achosion o ddiddordeb ar y cyd, e.e. mewn achosion trosiannol neu drawsffiniol, neu lle gallai treth mewn un awdurdodaeth effeithio ar dreth yn y llall. Mae HMRC a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithio i drafod materion o ddiddordeb cyffredin o ran eu trethi priodol, ac mae’r cydweithio hwn yn gweithio’n dda.

## PENNOD 4

## PWERAU BENTHYCA

33. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca arian at y dibenion canlynol o fis Ebrill 2018 ymlaen:

- Yn y Ddeddf mae pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500m. Gall Gweinidogion Cymru fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw);
- Mae'r Ddeddf yn ehangu'r amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthyca arian ar draws blynyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod hyd at £200m bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500m) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd;
- Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy’n golygu y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £500m i ariannu buddsoddiad cyfalaf. Gall yr arian hwn gael ei fenthyca gan Gronfa’r Loteri Genedlaethol neu gan fanciau masnachol. O fewn y terfyn cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o fis Ebrill 2018 ymlaen).

### Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith

34. Ym mis Rhagfyr 2016, roedd fframwaith ariannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys newidiadau i’r trefniadau benthyca cyfalaf yn Neddf Cymru 2014:

- Cynyddwyd y terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol o £500m i £1bn (fel y deddfwyd yn Neddf Cymru 2017). Cafodd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol ei gynyddu hefyd ym mis Ebrill 2019, i £150m;
- Yn ogystal â benthyca gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu fanciau masnachol i ariannu gwariant cyfalaf, byddai Llywodraeth Cymru’n gallu cyflwyno bondiau. Felly, ym mis Rhagfyr 2018, gwnaeth Llywodraeth y DU orchymyn o dan Adran 121(4) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddiwygio 121(1A) y Ddeddf honno.

**PENNOD 5**

**PŴER I GREU TRETHI NEWYDD**

35. Gyda chytundeb y ddwy Lywodraeth, gellir datganoli rhagor o bwerau drwy is-ddeddfwriaeth i Senedd Cymru gyflwyno trethi newydd sy'n benodol i Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cynnig ffordd i Senedd Cymru sicrhau canlyniadau polisi, yn ogystal â sicrhau refeniw ychwanegol o bosib. Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2014 yn cynnwys manylion pellach ynglŷn â'r cynigion treth newydd.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

36. Ym mis Ionawr 2016, fe gytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar broses i asesu unrhyw gynigion gan Lywodraeth Cymru i gael trethi newydd penodol i Gymru[5]. Caiff y broses hon ei llywodraethu gan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC)[6] a'i rheoli gan y grŵp sy'n ei chefnogi (JEC(O)):

**Treth ar Dir Gwag**

37. Fe roddodd Llywodraeth Cymru wybod i Senedd Cymru ei bod yn bwriadu cynnig Treth ar Dir Gwag ym mis Chwefror 2018 ac fe ysgrifennodd at Weinidogion y Trysorlys ym mis Mawrth 2018 i roi gwybod i Lywodraeth y DU am fwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau proses Deddf Cymru 2014 yn ffurfiol.

38. Yn unol â'r broses honno, a gan gydnabod bod penderfyniadau terfynol ar rinweddau â dyluniad treth datganoledig ond yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru, mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM wedi bod yn gweithio i gytuno ar Orchymyn drafft a gwybodaeth ategol fel y gellir ei asesu, yn anad dim yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2014.

39. Er mwyn galluogi Llywodraeth y DU i asesu effaith newid o'r math hwn ar system dreth y DU, mae angen cyfrif datblygedig o'r dreth a ragwelir, gan gynnwys mwy o wybodaeth am effaith y dreth arfaethedig a'r rhyngweithio â threthi datganoledig a neilltuedig a'r effeithiau ehangach ar gyfer system dreth y DU. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y DU wneud asesiad cychwynnol, ac yn dilyn hynny cynnal ymgynghoriad ar yr effeithiau ar system dreth y DU o ddatganoli'r pŵer hwn a drwy hynny ganiatáu i'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau ymgysylltu'n ystyrlon â'r ymgynghoriad hwnnw.

[5] Cafodd y broses hon ei hamlinellu'n flaenorol yn y Pumed Adroddiad Blynyddol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014.

[6] Mae Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC) yn fforwm weinidogol rhynglywodraethol ar gyfer Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer goruchwylio'r broses o drosglwyddo pwerau ariannol. Fe wnaeth y Cyd-bwyllgor gyfarfod am y tro cyntaf ar 20 Hydref 2014.

40. Mae Trysorlys EM yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod a llunio'r deunydd sydd ei angen.

**PENNOD 6**

**EFFAITH PWERAU NEWYDD AR GRANT BLOC CYMRU**

41. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli trethi yw bod elfen o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid am y gallu i godi trethi. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol i lywio trefniadau cyllido newydd Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys addasiadau i'r grant bloc ar gyfer datganoli trethi, a'u perthynas â fformiwla Barnett a chyllid gwaelodol Llywodraeth Cymru.

42. Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trefniadau canlynol i gyllido'r grant bloc:

- ers mis Ebrill 2018 mae ffactor seiliedig ar anghenion wedi cael ei gynnwys yn fformiwla Barnett i bennu newidiadau yng nghyllid grant bloc Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datganoli gwariant;
- mae'r ffactor seiliedig ar anghenion hwn wedi'i osod ar 115%, ar sail yr amrediad sydd wedi'i awgrymu gan Gomisiwn Holtham a'r cyllid gwaelodol a osodwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015;
- er bod cyllid cymharol y pen Llywodraeth Cymru yn parhau'n uwch na 115%, mae ffactor trosiannol o 105% yn cael ei ddefnyddio;
- mae'r newidiadau yng nghyllid y grant bloc o ran datganoli trethi yn cael eu pennu drwy'r model Cymaradwy;
- mae'r system ar gyfer addasu'r grant bloc yn cynnwys didyniad sylfaenol cychwynnol i adlewyrchu'r refeniw trethi y mae Llywodraeth y DU wedi'i hepgor ar bwynt datganoli'r dreth; a mynegeio dilynol drwy'r model Cymaradwy, yn seiliedig ar newidiadau i refeniw trethi cyfatebol Llywodraeth y DU;
- mae'r model Cymaradwy wedi cael ei roi ar waith ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp, y Dreth Dirlenwi a'r holl fandiau Treth Incwm.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

43. Mae'r trefniadau hyn wedi pennu cyllid grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 ymlaen.

44. Mae'r cyllid canlyniadol wedi'i nodi yng nghyhoeddiad blynyddol Trysorlys EM, Tryloywder Grantiau Bloc. Cafodd yr un diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 yn cynnwys cyllid hyd at, ac yn cynnwys y Prif Amcangyfrif ar gyfer 2020-21[7].

[7] https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-july-2020

## PENNOD 7

## GWEITHGAREDDAU ERAILL I ROI HYN AR WAITH

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

45. Roedd Papur Gorchymyn 2014 (troednodyn 1) yn dweud y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi cronfa arian parod i Lywodraeth Cymru, i'w helpu i reoli natur gyfnewidiol ei chyllideb yn sgil ei phwerau trethu newydd.

46. Yn 2016, fe wnaeth fframwaith ariannol Llywodraeth Cymru nodi rhagor o fanylion ar gyfer Cronfa Wrth Gefn newydd i Gymru, a oedd yn cyfuno'r gronfa arian parod a'r cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau[8]. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn gallu talu derbyniadau treth dros ben (ar ôl ad-dalu unrhyw fenthyca cyfredol sydd heb ei dalu) i'r Gronfa Wrth Gefn, sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

47. Daeth Cronfa Wrth Gefn Cymru yn weithredol ochr yn ochr â'r broses o ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi ym mis Ebrill 2018. Gall Cronfa wrth Gefn Cymru ddal £350m yn ei grynswth ac nid oes cap blynyddol ar daliadau i mewn i'r Gronfa. Mae gan Lywodraeth Cymru derfyn blynyddol ar gyfer tynnu arian i lawr, sef £125 miliwn ar gyfer adnoddau a £50 miliwn ar gyfer cyfalaf.

| £m | Rhagfyr 2020 |
|---|---|
| Adnodd | 228.6 |
| Cyfalaf heb gynnwys Trafodiadau Ariannol | 40.2 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 67.1 |
| **Cyfanswm y Gronfa Wrth Gefn** | **335.9** |

*Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn Cymru*

[8] Mae cyfnewid cyllidebau'n fecanwaith a oedd arfer galluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen cyfran o'i chyllid o un flwyddyn i'r nesaf.

**PENNOD 8**

**GOFYNION ADRODD ERAILL**

48. Yn ogystal â'r elfennau a drafodwyd yn y penodau blaenorol (camau a gymerwyd i roi hyn ar waith, camau sydd eto i'w cymryd, ac effaith y darpariaethau ar y grant bloc), mae Adran 23 Deddf Cymru 2014 yn mynnu bod adroddiadau blynyddol ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

- asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
- asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i Senedd Cymru neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan Ran 2;
- datganiad am effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
- unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw Senedd y DU neu Senedd Cymru atynt.

49. Dyma'r chweched adroddiad ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi fod holl ddarpariaethau Rhan 2 – yn unol ag Adran 29(2)(b) o'r Ddeddf – wedi dod i rym ddau fis ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i CTIC a benthyca gan Weinidogion Cymru.

50. Roedd Adran 17 o Ddeddf Cymru 2017 yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn rhoi CTIC ar waith. Daeth yr adran hon i rym ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, ar 31 Mawrth 2017. Cyflwynodd y Trysorlys Orchymyn i roi CTIC ar waith o 2019-20 ymlaen.

51. Fe gyflwynodd Trysorlys EM reoliadau a ddaeth ag Adran 20 (Gweinidogion Cymru yn benthyca) i rym o 1 Ionawr 2017 ymlaen. Roedd Adran 18 Deddf Cymru 2017 yn diwygio Adran 122A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddyblu cap benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn. Daeth yr adran hon hefyd i rym ar 31 Mawrth 2017.

52. Fel y nodwyd yn y fframwaith cyllidol, cafodd y terfyn blynyddol ar wariant cyfalaf ei gynyddu hefyd. Ar ôl cyflwyno CTIC, mae'r terfyn blynyddol yn cael ei osod ar 15% o'r cap cyffredinol ar fenthyca, sy'n cyfateb i £150 miliwn y flwyddyn.

**PENNOD 9**

**CASGLIAD**

53. Mae Adran 23 Deddf Cymru 2014 yn mynnu y dylai'r Adroddiad Blynyddol ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 o'r Ddeddf honno gael ei osod gerbron flwyddyn i'r dyddiad y cafodd Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), neu cyn hynny.

54. Cafodd y diwethaf o ddarpariaethau ariannol y Ddeddf eu cyflwyno, ar ôl rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith yn llwyddiannus ar 6 Ebrill 2019.

55. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf ac olaf ar gyflwyno Rhan 2 Deddf Cymru 2014, yn unol ag Adran 23(4)(b) o'r Ddeddf, ar, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y pen-blwydd cyntaf yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y cyflwynwyd yr olaf o'r darpariaethau ariannol yn y Ddeddf, sef Ebrill 2021.

**Atodiad A: Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014**

1. *datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Pennod 2: Paragraffau 10-25
   Pennod 3: Paragraffau 28-32
   Pennod 4: Paragraff 34
   Pennod 5: Paragraff 36
   Pennod 6: Paragraffau 43 a 44

2. *datganiad am y camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Pennod 2: Paragraffau 26-27

3. *asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*

   gweler Pennod 8

4. *asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i Senedd Cymru neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon,*

   gweler Pennod 8

5. *datganiad am effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac*

   gweler Pennod 8

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw Senedd y DU neu Senedd Cymru atynt.*

   gweler Pennod 8

ISBN 978-1-5286-2338-4
CCS1220701388